Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Andrew Gilbert
Ysgol Gynradd Sirol Albert
Albert Road
Penarth
CF64 1BX

02/04/2025

Annwyl Andrew Gilbert

**Ymweliad interim:** Mawrth 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Sirol Albert yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'r arolygiad craidd ym mis Gorffennaf 2023. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion ac edrych ar eu gwaith, a siarad â staff ac arweinwyr.

Ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hyn, isod. Gallai fod yn ddefnyddiol i arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi mwy o welliannau.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella addysgu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau annibynnol, beirniadol, creadigol a datrys problemau cryf

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi blaenoriaethu datblygiad medrau annibynnol, beirniadol, creadigol a datrys problemau disgyblion. Maent yn darparu dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cynorthwyo staff i ddeall sut i ddatblygu'r medrau hyn ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol. Mae sefydlu trioedd addysgu wedi creu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n datblygu medrau addysgegol staff yn dda. Mae hyn yn arwain at ddull cyson mewn addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Ar draws dosbarthiadau'r disgyblion iau, mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a ble. Maent yn cael mynediad at amgylcheddau dysgu gwirioneddol a phwrpasol yn yr awyr agored sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau annibynnol a datrys problemau yn llwyddiannus. Yn yr ystafelloedd dosbarth, mae athrawon yn darparu gorsafoedd cymorth defnyddiol, fel yr ardaloedd 'Hafan Help', lle gall disgyblion hunanasesu eu dysgu cyn gofyn i oedolyn.
- Yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae disgyblion wedi datblygu ystod o strategaethau i'w cynorthwyo pan fyddant yn wynebu heriau â'u dysgu. Mae athrawon yn darparu adnoddau sy'n cynorthwyo disgyblion ac yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda; er enghraifft, mae 'blwch cymorth barddoniaeth' yn cefnogi eu hysgrifennu creadigol. Yn gyffredinol, ymateb cyntaf disgyblion pan fydd angen cymorth arnynt â'u gwaith yw cymhwyso eu medrau meddwl neu ddefnyddio strategaethau ychwanegol yn hytrach na gofyn i oedolyn.
- Mae staff yn gwerthfawrogi barn disgyblion ac yn gofyn iddynt am beth hoffent ei ddysgu. Ar ddechrau pob thema, mae staff yn gofyn i ddisgyblion am awgrymiadau i arwain eu gweithgareddau dysgu. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn gwybod bod staff yn gwerthfawrogi eu hawgrymiadau ac yn gwybod y byddant yn gweithredu arnynt. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl yn annibynnol, er enghraifft pan mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn creu ac yn gwerthuso digwyddiadau newydd ar gyfer eu diwrnod chwaraeon.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn gwneud defnydd buddiol o feini prawf llwyddiant clir sy'n adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a medrau presennol disgyblion. Mae'r rhain yn cynorthwyo disgyblion i ddeall beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac i asesu gwaith cyfoedion a hunanasesu gwaith yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae staff yn cyd-lunio meini prawf llwyddiant gyda disgyblion. Mae hyn yn cryfhau gallu disgyblion i reoli eu dysgu eu hunain.

## Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynnwys staff a llywodraethwyr

- Ar ôl yr arolygiad craidd, mae arweinwyr yr ysgol wedi cryfhau gallu'r ysgol i werthuso'i pherfformiad ei hun. Gan weithio'n agos â staff a llywodraethwyr, maent wedi mireinio prosesau'r ysgol ac wedi datblygu cylch monitro a hunanwerthuso cadarn. Maent wedi symleiddio gweithdrefnau i sicrhau bod y wybodaeth a gânt o weithgareddau monitro yn galluogi staff i nodi'n glir unrhyw gryfderau a meysydd i'w gwella mewn dosbarthiadau ac ar draws yr ysgol.

- I gynyddu capasiti arwain a chynorthwyo i greu diwylliant hunanfyfyrio, mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys staff eraill mewn gweithgareddau monitro â ffocws. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau dysgu, cyfarfodydd cynnydd disgyblion bob tymor a gwrando ar sesiynau dysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol, yn mireinio eu medrau hunanwerthuso ac yn arwain at welliannau mewn dulliau addysgu. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion leisio'u meddyliau a'u barn a dylanwadu ar newid yn effeithiol.
- Mae ymglymiad llywodraethwyr mewn hunanwerthuso'r ysgol wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad craidd. Mae arweinwyr yr ysgol yn darparu dysgu proffesiynol defnyddiol ar gyfer llywodraethwyr sy'n eu cynorthwyo i ddeall am beth i chwilio wrth gynnal ymweliadau â'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys darparu taflenni procio defnyddiol i gefnogi eu trafodaethau â staff a disgyblion.
- Mae pob un o'r llywodraethwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn casglu tystiolaeth uniongyrchol a gwerthuso gwaith yr ysgol. Yn ychwanegol, mae llywodraethwyr â chyfrifoldebau penodol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac yn gweithio ochr yn ochr â staff yr ysgol i gefnogi eu dealltwriaeth.
- Mae llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth, er enghraifft am gynnydd yr ysgol yn erbyn blaenoriaethau ar gyfer gwella ac am gynnydd disgyblion. Maent yn gofyn cwestiynau gwybodus am waith yr ysgol ac yn cynnig cymorth defnyddiol a her briodol i arweinwyr yr ysgol.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â'r argymhellion ac yn awyddus i barhau i adeiladu ar y cynnydd y maent eisoes wedi'i wneud er budd eu disgyblion.

Gellir dod o hyd i adroddiad craidd diweddaraf yr ysgol / UCD a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.gov.wales/provider/6732109

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol